O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2398 (Cy. 258)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Ymadael Tua'r De yn Nhrefynwy, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *28 Medi 2011*

*Yn dod i rym* *9 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Casnewydd i Gaerwrangon (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Hydref 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Ffordd Ymadael Tua'r De yn Nhrefynwy, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 9 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r de yn Nhrefynwy yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o bwynt lle y mae'n gwyro oddi ar brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r de-orllewin hyd at ei chyffordd â Beech Road.